

Dr JJ de Gorter
Spire Healthcare Limited
Spire Healthcare
Blwch Post 62647
120 Holborn
Llundain
EC1P 1JH

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
e-bost: Philomena.price2@cymru.gsi.gov.uk

2 Gorffennaf 2014

Annwyl Dr deGorter,

Yngghylch: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ag Ysbyty Spire Yale, Wrecsam, ar 9 Mawrth 2014 ac ymweliad dirybudd pellach ar 17 ac 18 Mawrth 2014.

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymweliad dirybudd ag Ysbyty Spire Yale, Wrecsam, ar 9 Mawrth 2014 ac ymweliadau dirybudd pellach ar 17 ac 18 Mawrth 2014. Amlygodd yr ymweliad agweddau sy'n werth eu nodi, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd adborth y grŵp o gleifion yn gadarnhaol ynglŷn â'r staff a'r gofal a dderbyniwyd.
- Roedd gwaith papur y cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac archwilio clinigol yn llawn gwybodaeth ac yn ystyriol o'r cyfarfodydd a'r camau blaenorol.
- Y nifer a'r amrywiaeth o staff a oedd ar ddyletswydd, ac roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf wrth ymarfer.
- Roedd polisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu fesul cyfnodau heb fod yn hwy na thair blynedd o hyd, yn unol â pholisi corfforaethol. Roedd holl bolisiâu gweithredol Spire wedi'u dilysu'n gorfforaethol gan Gyfarwyddiaethau perthnasol a chynghorwyr arbennig, sy'n arbenigo mewn meysydd neilltuol, er mwyn sicrhau y cedwir at ganllawiau a deddfwriaeth genedlaethol gyfredol. Strategaeth glinigol a chorfforaethol gadarn wedi'i gweithredu drwy system cerdyn sgorio sy'n monitro perfformiad, yn gosod targedau ac yn rhannu arfer gorau.
- Roedd system ar waith i sicrhau bod yr holl yswiriant atebolrwydd meddygol yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd yr holl staff meddygol yn rhoi caniatâd i weinyddwyr gynnal

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

DRIVING
IMPROVEMENT
THROUGH
INDEPENDENT AND
OBJECTIVE REVIEW

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru • Healthcare
Inspectorate Wales
Llywodraeth Cymru • Welsh Government
Parc Busnes Rhydycar • Rhydycar Business Park
Merthyr Tudful • Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
Ffôn • Tel 0300 062 8163
Ffacs • Fax 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

gwiriadau uniongyrchol gyda'r cwmnïau yswiriant, ac mae system glustnodi ar waith fel bod hyn yn digwydd yn brydlon. Mae hyn yn arfer da y dylid ei ganmol.

Cefndir

Cofrestrwyd Ysbyty Spire Yale Wrecsam yn wreiddiol ym mis Mai 1997, ac fe gynhaliwyd arolygiad dirybudd yn yr ysbyty ar 15 Tachwedd 2010. Mae Ysbyty Spire Yale Wrecsam yn rhan o grŵp Spire Healthcare. Ceir hyd i'r ysbyty yn rhwydd ym Mharc Technoleg Wrecsam. Adeilad unllawr modern yw'r ysbyty. Gellir cyrraedd yr ysbyty yn rhwydd mewn car neu ar gludiant cyhoeddus, ac mae yno ddigonedd o gyfleusterau parcio. Ceir mynediad digonol i bobl anabl.

Trosolwg Cyffredinol o'r Lleoliad Gofal Iechyd

Ansawdd y Gofal i'r Cleifion

Dywedodd yr holl gleifion a'u teuluoedd fod y gofal a'r driniaeth a gawsant o safon uchel. Dywedodd un claf mai dyma oedd y tro cyntaf iddo fod yn yr ysbyty a'i fod, er gwaethaf ei ofn, wedi cael profiad cadarnhaol iawn yn ystod ei arhosiad. Dywedodd fod y staff yn broffesiynol a chroesawgar iawn. Roeddent wedi tawelu ei feddwl a rhoi eglurhad ynghylch popeth fyddai'n digwydd wrtho ef a'i deulu. Dywedodd fod yr wybodaeth a gafodd cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty wedi bod o fudd mawr iddo ef a'i deulu. Dywedodd hefyd fod digonedd o ddewis o fwyd, a bod y bwyd hwn o ansawdd da iawn, yn ffres ac wedi'i gyflwyno'n dda.

Dywedodd cleifion eraill eu bod wedi gweld Meddyg Ymgynghorol o fewn dyddiau ar ôl eu hatgyfeiriad cyntaf, bod mân driniaethau, sganiau neu belydr-x wedi cael eu cynnal yn brydlon, a'u bod wedi cael diagnosis cynnar a thriniaeth wedi hynny mewn modd amserol a oedd yn cyd-fynd â'u hanghenion.

Dywedodd yr holl gleifion fod eu nyrs allweddol wedi ei gyflwyno ei hun, a bod yr holl staff yn dangos parch mawr tuag atynt, yn darparu gwybodaeth dda ac eglurhad ynglŷn â'r hyn fyddai'n digwydd.

Preifatrwydd ac Urddas

Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod cleifion a'u rhieni'n cael eu trin â'r parch mwyaf. Nodwyd bod agweddau ar breifatrwydd ac urddas o'r pwys mwyaf, ac wedi'u cynnwys ym mhob ymadwaith rhwng y cleifion a'r staff ac ym mhob ymyrraeth glinigol.

Cyfrinachedd Cleifion

Roedd cofnodion iechyd yn cael eu storio yn swyddfa'r ward. Gwelwyd bod sgysiau preifat yn cael eu cynnal â'r cleifion a bod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfrinachedd cleifion yn rhan annatod o bob agwedd ar eu hymarfer a'r gofal yr oeddent yn ei ddarparu.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Roedd dehonglwyr lleol, aelodau staff Cymraeg eu hiaith a llinell ffôn ieithoedd ar gael os oedd angen. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol, berthnasol a chyfredol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'r wybodaeth honno o ansawdd da.

Roedd gwasanaeth y British National Formulary ar gael yn benodol ar gyfer plant.

Dywedodd y cleifion fod eu nyrs allweddol wedi'i gyflwyno ei hun, a bod yr holl staff yn darparu gwybodaeth ac yn rhoi eglurhad da ynglŷn â'r hyn a oedd yn mynd i ddigwydd.

Roedd cleifion a'u teuluoedd yn deall yn glir sut i gwyno os oedd angen.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob chwarter. Bydd templed newydd ar gyfer yr holl gyfarfodydd yn sicrhau dull mwy safonedig o gofnodi cyfarfodydd a fforymau.

Polisiau Clinigol, Trefniadol a Phersonél

Roedd disgwyliad clir i'r holl staff ddarllen polisiau lleol a chorfforaethol a'u llofnodi i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Arweinyddiaeth Glinigol a'r Tîm Amlddisgyblaeth

Roedd yno dystiolaeth o arweinyddiaeth glinigol gref a oedd yn ysbrydoli, a gwaith tîm amlddisgyblaeth cydweithredol ac effeithiol. Roedd yr holl staff y siaradwyd â hwy yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu safbwyntiau'n derbyn yr un parch ag aelodau eraill y tîm.

Roedd yno ymdeimlad gwirioneddol o ysbryd tîm a chyfeillach, a nodwyd bod y dulliau cyfathrebu a'r perthnasoedd o fewn y timau a chydag adrannau eraill wedi'u sefydlu'n dda, gyda phawb yn cydweithio i sicrhau bod gofal a thriniaethau o safon uchel yn cael eu darparu i'w grŵp o gleientiaid. Cyfeiriodd y staff hefyd at dîm rheoli cefnogol ac ymarferol yr oedd ei aelodau'n hawdd mynd atynt.

Llywodraethu Clinigol

Roedd arolygon bodlonrwydd cleifion yn cael eu cyflwyno i'r grŵp Llywodraethu Clinigol a'r uwch dimau rheoli, a chatau angenrheidiol neu feysydd i'w gwella yn cael eu nodi, gan weithredu yn eu sgil lle bo'n berthnasol. Roedd ansawdd sawl maes ar draws yr ysbyty wedi gwella'n gyffredinol, gan gynnwys rheoli poen a chadw cofnodion gofal iechyd.

Roedd arolygon meddygon ymgynghorol hefyd yn cael eu hadolygu er mwyn canfod lefel eu bodlonrwydd hwy wrth ymarfer a defnyddio gwasanaethau o fewn yr ysbyty. Yn ôl y mwyafrif o ymatebion, roeddent y teimlo bod y gwasanaeth yn rhagorol, bod y canlyniadau'n well na'r cyfartaledd ar draws ysbytai Spire, ac y cafwyd gwelliannau mewn sawl maes a nodwyd i'w gwella, gan gynnwys perthnasoedd ag adrannau cleifion allanol.

Roedd ethos o Wella Ansawdd yn Barhaus i'w weld yn amlwg. Nodwyd meysydd i'w gwella o ran gofal cleifion ac ymarfer clinigol drwy ganlyniadau archwiliadau, gan gynnwys rheoli poen ac archwiliadau o ddogfennau meddygon ymgynghorol, cwynion, trafodaethau ymarfer myfyriol a chanllawiau a safonau clinigol cenedlaethol cyfredol. Roedd y camau yr oedd angen eu cymryd a'r gwelliannau'n cael eu nodi, eu hymgorffori yn yr ymarfer a'u monitro.

Roedd yno brosesau mesur clir er mwyn pennu Canlyniadau a Pherfformiad Clinigol a dangosai'r canlyniadau fod y rhain yn cael eu trafod yn rhan o'r Strategaeth Llywodraethu Clinigol.

Roedd proses systematig wedi'i sefydlu i'r staff ar gyfer datblygiad proffesiynol, sy'n cynnwys amcanion i'w cyflawni, nodi anghenion hyfforddi a chyfleoedd am rolau estynedig, gan ddefnyddio model "Galluogi Rhagoriaeth".

Mae rhaglen eang o hyfforddiant gorfodol a galwedigaethol ar gael i'r holl staff, ac yn cynnwys hyfforddiant mewn meysydd penodol er mwyn bodloni'r anghenion a nodwyd ymhlith cleifion, cynnal bywyd sylfaenol ac uwch, gwasanaeth cwsmeriaid, codi a chario, diogelu gwybodaeth.

Roedd Cymwyseddau Craidd yn cael eu hasesu a hyfforddiant wedi'i ddarparu ym maes Rhoi Heparin, Chwistrellu Meddyginiaethau, Electrocardiograff a Thechnegau Aseptig.

Byddai "Senarios Adfywio" tebyg i fywyd go iawn yn cael eu creu a'u defnyddio fel cyfleoedd dysgu i'r holl staff.

Roedd dull gweithredu systematig yn cael ei fabwysiadu ar gyfer Goruchwyliaeth Glinigol ac Adolygiadau o Berfformiad.

Roedd gan bob aelod staff ei ffeil hyfforddi unigol ac roedd cydymffurfiaeth a gofynion hyfforddi'n cael ei monitro.

Roedd llwybrau gofal yn adlewyrchu ymarfer cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae mentrau newydd i wella'r gofal am gleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi gan reolwyr.

Roedd diwrnod 'Arweinwyr Llywodraethu Clinigol' wedi cael ei drefnu ar 26 Mawrth 2014.

Rheoli Risg

Roedd asesiadau risg unigol i'r cleifion ac asesiadau risg mwy cyffredinol yn cael eu cynnal ac yn rhan o'r rhaglen archwilio clinigol barhaus. Cafwyd tystiolaeth bod camau ar gyfer gwella yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth, lle'r oedd materion yn gysylltiedig â diogelwch cleifion wedi'u nodi.

Roedd polisi Rheoli Heintiau clir a chadarn ar waith, ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal, gan gynnwys archwiliadau o hylendid dwylo.

Roedd Gweithdrefnau Tân i'w gweld yn glir. Roedd Gwybodaeth Cymorth Cyntaf yn weladwy, a'r unigolion cyswllt cyntaf a'u lleoliadau wedi'u hamlinellu'n glir.

Cofnodion Iechyd

Ar y cyfan, roedd y cofnodion iechyd a welwyd o safon dda, wedi'u storio'n briodol, eu trefnu'n dda a'u harchwilio'n rheolaidd.

Rheoli Meddyginiaeth

Roedd archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o Ganllawiau Rhoi Meddyginiaeth y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Roedd hi'n ymddangos bod y dull o ymdrin â gwallau cyffuriau yn agored a thryloyw, ac roedd yr holl wallau hynny'n cael eu hadrodd wrth y Metron, eu cofnodi a'u monitro, a chatau priodol yn cael eu cymryd.

Bydd fferylllydd lleol yn darparu tair sesiwn yr wythnos, yn gweld cleifion, yn gwirio stoc y fferyllfa, siartiau presgripsiwn a llyfrau Rheoli Cyffuriau.

Adeiladau, Cyfleusterau a'r Amgylchedd

Wrth gerdded o amgylch yr eiddo am y tro cyntaf, gwelwyd ei fod yn lân iawn ac wedi'i addurno'n dda. Mae holl adeiladau'r ysbyty'n unllawr ac roedd mynediad addas ar gael i bobl mewn cadair olwyn drwy'r holl adeilad, ynghyd â thoiled gyda chymorth yn syth oddi ar ardal y brif dderbynfa. Roedd yr ysbyty'n cynnig mynediad da i bobl anabl, ac roedd y cyfleusterau newid cewyn, a chyfarpar a chyfleusterau cymorth y baddonau o safon dda.

Roedd yr ysbyty yn lân a golau ac wedi'i addurno'n dda, ac roedd yr ardaloedd cyhoeddus ac ystafelloedd y cleifion yn cynnwys cyfleusterau da, ac wedi'u dodrefnu'n gyffyrddus. Roedd archwiliadau cadw tŷ yn cael eu cynnal ac adroddiadau amdanynt yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd.

Gwnaed sylw ynghylch bylchau ym mherimedr lloriau'r ystafelloedd gwely, lle'r oedd deunydd selio silicôn wedi'i osod yn flaenorol. Roedd angen gwneud gwaith pellach yn gysylltiedig â'r dull hwn o selio a darparu mowld gorchuddio o dan banel y bath yn yr ardaloedd en-suite, i greu sêl effeithiol.

Archwiliwyd Theatr 1 a 2 a chanfuwyd eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n yn ddigonol ar y cyfan. Nodwyd bod rhai o orchuddion y llawr wedi cael eu hailosod ers yr arolygiad diwethaf, ond roedd angen gwneud mân waith trwsio yn yr ardal adfer, ac mae'r gwaith hwn wedi'i nodi isod o dan 'pryderon'.

Roedd ychydig o ddifrod wedi cael ei achosi i leinin y waliau yn dilyn gwrthdrawiadau, ac argymhellwyd y dylid ystyried darparu rheiliau/haenau gwrthdaro addas lle'r oedd hyn yn digwydd.

Dywedwyd ei bod hi'n bosib y byddai'r cyfarpar pelydr-x yn cael ei newid yn ddiweddarach eleni, ac y gallai'r adran fod ar gau am 2-4 wythnos tra byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd angen tystysgrifau a dilysiadau addas.

Nid oedd un o'r ystafelloedd gwely'n cael ei defnyddio fel ystafell wely, ac yn lle hynny'n cael ei defnyddio i storio offer ophthalmig dros dro.

Byddai gwaith gwasanaethu a dogfennau profi yn gysylltiedig â diogelwch tân, a gwaith profi offer trydanol cludadwy, oll yn cael eu cwblhau ar adegau priodol. Roedd y generadur wrth gefn wedi cael ei wasanaethu a'i brofi ym mis Tachwedd 2013, a systemau cyflenwad trydan annhoradwy i'r ddwy theatr yn cael eu profi'n rheolaidd bob mis.

Roedd Asesiad Risg Legionella wedi cael ei gynnal ym mis Mawrth 2013, a byddai'n bryd adolygu'r asesiad hwnnw'n fuan. Roedd y pedair eitem a nodwyd ar yr adroddiad gweithredu oll wedi'u cwblhau, ac fe gafwyd sgôr uchel o 16 allan o 16 mewn adroddiad archwilio ym mis Hydref 2013.

Pryderon

Roedd y Datganiad o Ddiben yn darparu ar gyfer defnyddio laser Diomed Dosbarth 4 (EVLT Delta) er mwyn trin gwythiennau ar yr wyneb. Canfuwyd nad oedd y laser hwn wedi cael ei ddefnyddio ers peth amser, a bod Aquilant wedi darparu consol Vari-Lase 15w ar drefniant sesiynol ers mis Tachwedd 2013, i'w ddefnyddio yn ei le.

Roedd Lasersafe wedi darparu Rheolau Lleol ar gyfer y laser newydd, ond nid oedd y defnyddwyr na'r cynorthwywyr awdurdodedig wedi cytuno i'r Rheolau hyn.

Simon Wharmby oedd enw'r Cynghorydd Diogelu Laser, sef ymgynghorydd diogelwch ymbelydredd optegol gyda chwmni Lasersafe. Roedd y llythyr a drefnai'r gwasanaeth hwn yn dod i ben ar 1 Mawrth 2014, ac mae hynny, ynghyd â phenodiad y Cynghorydd Diogelu Laser ar gyfer y laser blaenorol, yn golygu nad oes Cynghorydd Diogelu Laser wedi'i benodi ar gyfer yr ysbyty ar hyn o bryd.

Gan hynny, mae angen penderfynu pa laser fydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, a threfnu gwasanaeth, graddnodi, hyfforddiant gweithredwyr a chynghor ar ddiogelu laser. Yn ogystal â hyn, mae angen dilysu'r Rheolau a'r Protocolau Meddygol Lleol.

Cyhoeddwyd y dystysgrif ailarchwilio gyfnodol ar gyfer y gwifrau trydanol ar 15 Mehefin 2012, a dangoswyd eu bod yn ddilys am chwe mis yn unig. Hysbyswyd ar lafar fod holl ofynion cod 1 a chod 2 wedi'u cwblhau, ond bod disgwyl o hyd am y dystysgrif newydd. Mae angen sicrhau cynnydd gyda'r mater hwn, a hynny ar frys.

Roedd sawl tol a chrac mawr yn sinc bwced borslen y glanhawyr, mewn ystafell storio oddi ar goridor y gegin. Gan fod y sinc hwn hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer mopiau a bwcedi o'r gegin, dylid gosod un newydd, ar ffurf uned dur di-staen o bosib.

Amlygai'r ymweliad y materion isod, ac roedd y rhain wedi'u cynnwys mewn trosolwg ar lafar i'r rheolwr cofrestredig ac i aelodau eraill o'r tîm rheoli ar ddiwedd yr ymweliad.

Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:

Camau Angenrheidiol	Amserlen ar gyfer cwblhau	Rhif Rheoliad
Adolygu perimedr lloriau'r ystafelloedd gwely, a darparu deunydd selio hyblyg lle bo angen. Hefyd, dylid gosod ymyl/sêl addas ar y pren noeth o dan baneli'r baddonau.	4 Wythnos Cwblhawyd	Rheoliad 26(2)(b)
Mae gorchuddion llawr yr ystafelloedd theatr wedi'u gosod ar islawr pren. Mae craciau'n dechrau ymddangos yn yr ardal adfer, uwchben uniadau'r islawr, a dylid defnyddio dull addas i asio'r craciau hyn er mwyn cadw'r llawr yn gyfan.	Pythefnos Cwblhawyd	Rheoliad 26(2)(b)
Mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer Triniaethau Laser, a gweithredu trefn briodol ar gyfer gwasanaethu a graddnodi'r cyfarpar hwnnw, ac ar gyfer hyfforddi gweithredwyr a chyngor diogelu laser. Hefyd, dylid dilysu'r Rheolau a'r Protocolau Meddygol Lleol	Pythefnos Cwblhawyd	Rheoliad 45 (1)(2)(3) Cwblhawyd
Ceisio dilysu'r dystysgrif gyfnodol gyfredol ar gyfer ail-archwilio trydanol.	Pythefnos Cwblhawyd	Rheoliad 26(2)(a)
Gosod sinc newydd yn lle'r sinc bwced borslen ddiffygiol yn storfa'r glanhawr.	4 Wythnos	Rheoliad 26(2)(b)

Argymhellion Arfer Da:

Hyfforddiant blynyddol ar reoli meddyginiaethau i'r holl aelodau staff sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau.

Gofyniad i sicrhau llofnodion yr holl staff sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal rhwng adrannau ar gofnodion cleifion.

Ceir prinder amlwg o ystafelloedd Ymgynghori. Efallai y bydd uwch dîm rheoli'r ysbyty am adolygu'r ystafelloedd sydd ar gael.

Roedd prinder lle storio. Cynghorwyd y dylid cynnal adolygiad o'r cyfleusterau storio presennol.

Gofynnir i chi anfon cynllun gweithredu i AGIC erbyn 21 Gorffennaf 2014.

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddiolch i'r holl aelodau o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at:
Mrs Linda Jones. Rheolwr Cofrestredig Ysbyty Spire Yale

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in purple ink, appearing to read 'Phil Price', written over a horizontal line.

Phil Price
Rheolwr Arolygu